# Prifysgol Abertawe

## Amodau a Thelerau'r Taliad Cyfoethogi Academaidd 2024-25

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu amodau a thelerau llawn y Taliad Cyfoethogi Academaidd a dylech chi ddarllen y rhain cyn cwblhau a chyflwyno cais am y dyfarniad hwn.

Pwy sy'n gymwys?

Rhaid bod ymgeiswyr wedi'u cofrestru'n fyfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe ar hyn o bryd a rhaid bod ganddynt statws un o'r canlynol:

- Ceisiwr Lloches
- Ffoadur
- Y rhai sydd â Chaniatâd Cyfyngedig neu Ganiatâd yn Ôl Disgresiwn i Aros*
- Y rhai sydd â Diogelwch Dyngarol*

*o ganlyniad i hawlio lloches

Rhaid i ymgeiswyr anfon tystiolaeth o'u statws mewnfudo ynghyd â'u cais, er mwyn profi eu bod yn gymwys am y dyfarniad hwn.

Sylwer, nid yw'r dyfarniad hwn yn disodli'r Gronfa Galedi na'r Gronfa Cymorth i Fyfyrwyr Rhyngwladol, a'i unig ddiben yw cyfoethogi profiad academaidd derbynwyr. Ni ellir defnyddio'r taliad hwn tuag at ffioedd dysgu, llety na chostau byw

Ymgeisio

Drwy gyflwyno cais am y dyfarniad, rydych chi'n cydnabod ymwybyddiaeth o gytundeb gyda'r amodau canlynol:

- Yr uchafswm y gellir ei ddyfarnu fel Taliad Cyfoethogi Academaidd yw £250.
- Caniateir un dyfarniad fesul blwyddyn academaidd i bob myfyriwr. Ni fydd taliadau mewn blynyddoedd dilynol yn cael eu gwarantu; rhoddir blaenoriaeth i fyfyrwyr sy'n derbyn y dyfarniad hwn am y tro cyntaf.
- Rhaid cyflwyno ceisiadau hyd at wyth wythnos cyn dyddiad diwedd eich cwrs.
- Rhaid i'r holl ymgeiswyr fod wedi'u cofrestru i dderbyn y dyfarniad hwn.
- Rhaid nad oes ffioedd dysgu yn ddyledus gan ymgeiswyr i dderbyn y dyfarniad hwn.
- Rhaid nad yw ymgeiswyr wedi atal eu hastudiaethau dros dro na gohirio blwyddyn astudio.

Dylech gwblhau'r Ffurflen Gais Taliad Cyfoethogi Academaidd berthnasol sydd ar gael ar ein gwefan: Taliad Cyfoethogi Academaidd

- Cewch eich hysbysu drwy e-bost os nad yw eich cais yn bodloni'r meini prawf cymhwyso.
- Ni chaiff ceisiadau anghyflawn eu hystyried.

Cyfrifoldeb Unigol

Ni all y Brifysgol fod yn gyfrifol am unrhyw wallau neu fylchau yn yr wybodaeth a roddir iddi ac y seilir penderfyniadau cymhwyso arni. Mae penderfyniad y Brifysgol ar ddehongli meini prawf cymhwyso yn derfynol ac nid oes hawl i apelio.

Bydd gan ymgeiswyr 10 niwrnod gwaith i anfon unrhyw wybodaeth ychwanegol y gall tîm Cyfranogiad@BywydCampws ofyn amdani i brosesu cais.

Rhaid i chi gydymffurfio â phob cais am wybodaeth ychwanegol i gadarnhau eich cymhwystra yn unol â'r terfynau amser a nodir a rhaid cyflwyno'r dystiolaeth y gofynnir amdani erbyn y dyddiadau cau. Os nad ydynt yn glynu wrth y dyddiadau cau hyn, dylai ymgeiswyr ddeall y gellir gwrthod eu cais.

Dethol

- Caiff ceisiadau llwyddiannus eu dethol ar sail eich datganiad cefnogol a gyflwynir yn eich ffurflen gais, a gwybodaeth gyd-destunol arall *megis tystiolaeth ychwanegol ynghylch diben y taliad*, a ddarparwyd yn eich cais.
- Darperir y dyfarniad hwn yn oddrychol, a bydd pob cais yn cael ei adolygu gan dîm Cyfranogiad@BywydCampws.
- Ni fydd modd eich ystyried am ddyfarniad os na fyddwch chi wedi cyflwyno cais cyflawn ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol berthnasol erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau. Mae pob dyfarniad ar sail disgresiwn a nifer cyfyngedig sydd ar gael, felly hyd yn oed os byddwch chi'n bodloni'r meini prawf, nid oes gwarant y byddwch yn llwyddiannus.

Talu

- Bydd tîm Cyfranogiad@BywydCampws yn dewis y dull talu, e.e. talebau, credyd teithio. Os caiff arian parod ei dalu, sy'n sefyllfa anarferol, bydd angen derbynebau.
- Ni fydd Cyfranogiad@BywydCampws a'r adrannau Cyllid yn gyfrifol am newid mewn manylion banc neu unrhyw daliadau banc a godir ar y myfyriwr oherwydd y newid hwn.
- Os yw cais myfyriwr am y dyfarniad hwn yn llwyddiannus, bydd tîm Arian@BywydCampws yn prosesu'r taliad a gall gymryd hyd at 10 niwrnod gwaith i gwblhau hyn.

Camau Disgyblu a Cheisiadau Twyllodrus

- Os bydd ymgeiswyr yn rhoi gwybodaeth ffug, neu'n methu datgelu'r holl wybodaeth berthnasol, gellir gwrthod y cais a gall y myfyriwr wynebu camau disgyblu gan y Brifysgol.
- Gall camliwio twyllodrus arwain at ymchwiliad pellach, a allai gynnwys yr heddlu.

Cwynion

- Nid oes hawl i apelio ac mae penderfyniad y Brifysgol yn derfynol mewn perthynas â'ch cymhwystra am ddyfarniad. Gallwch gyflwyno cwyn os ydych chi'n meddwl nad ydych chi

wedi cael eich ystyried am ddyfarniad o ganlyniad i wall gweithdrefnol, neu os credwch y cafwyd rhyw broblem weithdrefnol arall gyda'n system dyrannu a dyfarnu.
- Dylid cyflwyno cwynion yn unol â phroses y Brifysgol. Mae manylion am hyn yma: Polisi Cwynion ac Apeliadau i Ymgeiswyr

Defnyddio Data

- Caiff yr holl ffurflenni cais a dogfennau cefnogol eu cadw am o leiaf 6 blynedd, yn unol â deddfwriaeth diogelu data.
- I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Prifysgol Abertawe’n defnyddio data myfyrwyr, gweler yma: Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr